OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1154

# Rheoliadau Tir Mynydd (Daliadau Trawsffiniol) (Cymru) 2001

**Dyrannu unedau da byw sy'n pori ar ddaliadau a leolir yn rhannol y tu allan i Gymru**

**7.** Pan fydd unrhyw ddaliad y gwnaed cais ar ei gyfer wedi'i leoli yn rhannol y tu allan i Gymru, rhaid cyfrifo nifer yr unedau da byw sy'n pori ar y rhan honno o'r daliad a leolir yng Nghymru fel a ganlyn:

$$N = U \times X \div Y$$

ac

"**N**" yw nifer yr unedau da byw sy'n pori ar y rhan honno o'r daliad a leolir yng Nghymru;

"**U**" yw cyfanswm yr unedau da byw sy'n pori ar y daliad hwnnw;

"**X**" yw arwynebedd porthiant y gwneir cais amdano y rhan honno o'r daliad a leolir yng Nghymru mewn hectarau; ac

"**Y**" yw cyfanswm arwynebedd porthiant y gwneir cais amdano y daliad hwnnw mewn hectarau.